



Ein cyf/Our ref: MA-(P)/LG/0429/17

At holl Aelodau'r Cynulliad

Chwefror 2017

*Annwyl Cydweithiwr*

Ar 24 Ionawr, gofynnodd David Melding, Aelod Canol De Cymru, i'r Prif Weinidog ddarparu gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad ynghylch allyriadau ocsidau nitrogen ( $\text{NO}_x$ ) o Orsaf Bŵer Aberddawan. Mae'r cais wedi ei drosglwyddo imi gan bod y mater hwn yn syrthio o fewn fy mhortffolio Gweinidogol.

Fel rheoleiddwyr amgylcheddol Gorsaf Bŵer Aberddawan, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweinyddu trwydded amgylcheddol Aberddawan, sydd yng ngofal RWE Generation UK, a hwy sy'n pennu'r amodau. Ymysg yr amodau hyn, mae'r gofynion ar gyfer casglu data monitro allyriadau a'u cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru bob chwarter. Ar 23 Ionawr, derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru y data ar gyfer cynnod Hydref i Rhagfyr, a gafodd ei drosglwyddo i'm swyddogion ar 26 Ionawr, yn ogystal â'r data ar gyfer gweddill y flwyddyn. Rwy'n amgáu yr wybodaeth hon yn Atodiad 1.

Hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at y golofn data â'r teitl ' $\text{NO}_x$  ( $\text{mg}/\text{m}^3$ ) y mis ar gyfartaledd'. Dyma'r set ddata berthnasol er mwyn ystyried allyriadau Aberddaw o fewn cyd-destun penderfyniad diweddar Llys Cyfiawnder yr UE. Mae'r data yn dangos bod crynodiad yr  $\text{NO}_x$  yn allyriadau Aberddaw yn  $528\text{mg}/\text{m}^3$  ar ddiwedd llynedd, diwedd ar flwyddyn o ostyngiadau. Ym marn Cyfoeth Naturiol Cymru, lleihau allyriadau ac amodau gweithredu ffafriol sydd wedi arwain at y gostyngiad. Bydd angen rhagor o waith er mwyn i Aberddaw weithredu'n gyson o dan yr uchafswm gwerth o  $500\text{mg}/\text{m}^3$  sy'n berthnasol yng ngoleuni dyfarniad Llys ac rwy'n disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau bod RWE yn mynd ymlaen â hyn cyn gynted â phosib.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r wybodaeth yn Atodiad 1 a data arall ar gael i'w gweld ar gofrestr cyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru. I'w weld hefyd mae:

- Y llythyr yr ysgrifennodd Cyfoeth Naturiol Cymru at RWE ar 6 Ionawr yn nodi eu bwriad i addasu trwydded amgylcheddol Aberaddaw yn dilyn y dyfarniad Llys; ac
- Y Cais ffurfiol am Wybodaeth, a gyhoeddwyd o dan Reoliad 61 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, y mae Cyfoeth Naturiol Cymru am ei defnyddio i gael eglurhad o gynlluniau RWE o ran cydymffurfio.

Bum yn cyfarfod â chynrychiolwyr RWE ac Undeb UNITE ar 7 Tachwedd i drafod dyfarniad y Llys a'i effaith ar weithdrefnau Aberaddaw yn y dyfodol. Hefyd, mae swyddogion wedi trafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a RWE sawl gwaith ers mis Medi ynghylch y camau tuag at weithredu'r dyfarniad Llys. Byddant yn parhau i drafod gyda'r ddwy ochr, a gyda swyddogion o fewn adrannau Llywodraeth Prydain (gan gynnwys Cynrychiolydd Parhaol y DU i'r UE, Brwsel), yn ystod y camau monitro tuag at gydymffurfio dros yr wythnosau nesaf.

*Yn gywir*  
*Lesley Griffiths*

**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs



RELEASES TO AIR

QUARTERLY RETURN

MONTHLY MEAN, MAXIMUM DAILY MEAN AND ANNUAL PERCENTILE CONCENTRATIONS <sup>(a),(b),(c)</sup>

Operator: RWE Generation UK Form: IED CON1 (Utility boilers)  
 Location: Aberthaw Power Station  
 Permit/Variation Number: EPR/RP3133LD

Year: 2016 LCP: LCP 283	SO <sub>2</sub> (mg/m <sup>3</sup> )		NO <sub>x</sub> (mg/m <sup>3</sup> )		Dust (mg/m <sup>3</sup> )		Monthly	
	Monthly Mean	Max Daily Mean	Monthly Mean	Max Daily Mean	Monthly Mean	Max Daily Mean <sup>(e)</sup>	Fuel S %	FGD ET <sup>(d)</sup> %
January	198.53	362.60	740.65	866.04	10.67	14.54		
February	140.36	320.46	719.88	849.04	8.68	18.18		
March	111.54	228.49	668.17	821.35	7.52	11.09		
April	114.69	223.54	627.02	805.30	6.59	8.95		
May	115.24	180.20	508.53	687.19	4.83	7.55		
June	112.06	277.11	537.52	627.33	6.44	26.74		
July	65.32	275.54	590.31	700.93	5.78	9.66		
August	102.30	200.36	533.93	771.95	5.38	10.71		
September	125.22	292.63	467.41	621.63	7.12	9.99		
October	103.81	164.75	468.80	544.37	6.83	9.93		
November	97.18	180.71	593.86	733.08	7.91	11.51		
December	100.08	205.89	528.74	620.91	6.93	8.97		
Monthly ELV/Daily ELV <sup>(g)</sup>	350.00	#N/A	1050.00	#N/A	20.00	#N/A		
Annual 95 <sup>th</sup> Percentile <sup>(f)</sup>	266.72	217.48	826.17	805.30	12.10	11.43		
Annual Percentile ELV <sup>(g)</sup>	#N/A	440.00	#N/A	1080.00	#N/A	35.00		

NOTES:

- (a) All concentration data are based on validated hourly average concentrations excluding start-up and shut-down and periods of malfunction or breakdown of abatement equipment
- (b) Annual percentiles of hourly average concentrations are submitted with the final return (Quarter 4)
- (c) Reference conditions. Solid fuel: 6% O<sub>2</sub> (dry) Liquid fuel: 3% O<sub>2</sub> (dry) at 273.15K, 101.325 kPa
- (d) Required for indigenous fuel derogation only - state target removal efficiency as the ELV (if applicable)
- (e) Leave the Daily ELV blank if this is applied as a 95<sup>th</sup> percentile ELV within the Permit
- (f) For each pollutant, report the Annual 95<sup>th</sup> percentile of hourly averages in the first column and, if applicable, Annual 95<sup>th</sup> percentile of daily means in the second column
- (g) For each pollutant, report Annual 95<sup>th</sup> percentile ELV for hourly averages in the first column and, if applicable, Annual 95<sup>th</sup> percentile ELV for daily means in the second column

Signed on behalf of the Operator by:

*A. Zanster*

Date of return:

23 January 2017

